24. Rhaid i oll lystyfiant, uwchbridd ac isbridd sydd wedi'u stripio o bob ardal gwaith ac ardaloedd yr effeithir arnynt gan waith cloddio, ffyrdd mynediad dros dro a llwybrau cludo cerbydau, gael eu storio o fewn y bwnd sgrinio acwstig a ddangoswyd ar gynlluniau'r cais. Rhaid cadw uwchbridd, isbridd a gorlwyth mewn twmpathau storio ar wahân heb gymysgu â'i gilydd. Rhaid mesur cyfanswm twmpathau storio a chadarnhau lleoliadau a natur y deunydd ynddo drwy gyfeirio at gynllun wrth raddfa i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau o fewn tri mis ar ôl cwblhau. Y gweithredwr fydd yn gyfrifol am gadw cofnod cyfredol o'r oll pentyrrau storio drwy gydol oes y Safle.

    *All vegetation, topsoil and subsoil stripped from each phase of working and areas affected by excavations, temporary access roads and vehicle haulage routes, shall be stored within the acoustic screening bund indicated on the application plans. Topsoils, subsoils and overburden shall be kept in separate storage mounds and prevented from mixing. The quantities of storage mounds shall be measured with volumes, locations and nature of material held therein confirmed by reference to a scale plan to be submitted to the Mineral Planning Authority within three months of completion. The operator shall be responsible for maintaining an up to date record of all storage bunds throughout the life of the site.*

25. Dylai holl uwchbridd ac isbridd sydd wedi'i stripio a'i storio yn unol â'r amod uchod gael eu defnyddio mewn gwaith adfer ac ni ddylid symud y fath ddeunyddiau oddi ar y safle heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Rhaid isafu ar symudiad offer a pheiriannau dros briddoedd o'r fath yn unol ag ymarferiad pwysedd tir isel i atal difrod i strwythur y pridd drwy gywasgu. Rhaid symud pridd dim ond pan mewn cyflwr sych a brau a phan fod cyflwr y tir yn sych.

    *All topsoil and subsoil stripped and stored in accordance with the above condition shall be employed in works of restoration and no such materials shall be removed from the site without the prior written permission of the Mineral Planning Authority. Movement of plant and machinery over such soils shall be minimised in accordance with the practice of low ground pressure to prevent damage to soil structure by compaction. Soils shall only be moved when in a dry and friable condition and when ground conditions are dry.*

26. Rhaid cadw twmpathau storio uwchbridd ac isbridd yn rhydd o chwyn / llystyfiant cystadleuol a rhaid cymryd pob cam angenrheidiol i ladd chwyn yn gynnar yn eu twf i'w rhwystro rhag hadu.

    *Topsoil and subsoil storage mounds shall be kept free from weeds / competitive vegetation and all necessary steps shall be taken to destroy weeds at an early stage of growth to prevent seeding.*

27. Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, cynllun adfer ac ôl-ofal manwl ar gyfer y safle cyn cychwyn y datblygiad. Fydd ei strategaeth yn cynnwys manylion y gwaith adfer, modelu'r ffurf tir a mesuriadau i adfer tir pori amaethyddol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau ac i hyrwyddo bioamrywiaeth yn unol â'r cysyniad adfer a ddangoswyd gynllun y cais rhif; 'M09162A.028A' a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau ar 29ain Mehefin

2017. Yn fwy penodol, rhaid i'r cynllun adfer a rheoli bioamrywiaeth gael ei weithredu o fewn y tymor plannu cyntaf sydd ar gael a chynnwys;

i. Cynllun arolwg topograffig manwl, trawstoriadau a lluniadau wrth raddfa o leiaf 1:1,250 i ddangos proffil adfer gorffenedig gwynebau'r chwarel, llethrau cysylltiol, ffyrdd gludo a thir gweithredol cysylltiol,
ii. Trin y ffyrdd gludo, graddio gwynebau'r chwarel, llethrau cysylltiol a thir gweithredol cysylltiol mewn modd i sicrhau bod llystyfiant naturiol sy'n nodweddiadol o rywogaethau'r ardal yn ailsefydlu yno,
iii. Adfer tir amaethyddol yn unol â rheolau hwsmonaeth dda ac mewn cydymffurfiaeth â'r canllawiau a amlinellir yn Atodiad B, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau, ac amodau 28 – 34 o'r caniatad hwn, gyda'r bwriad o sefydlu a chynnal glaswelltir iach a chryf yn rhydd o chwyn. Rhaid rhoi gwrtaith a chalch ar y tir i gynnal statws maethion y pridd ac i roi digon o nitrogen i gynnal lefel resymol o gynhyrchu glaswelltir,
iv. Anghenion Draenio,
v. Ailosod oll terfynnau cae a gwrychoedd,
vi. Symud byndiau sgrinio lladd swn,
vii. Atodlen blannu llawn i gynnwys manylion maint, rhywogaeth, lleoliadau & dwysedd yr holl goed a llwyni cynhenid o darddiad lleol,
viii. Hadu/plannu rhywogaethau addas o lystyfiant a blodau gwyllt sydd yn nodweddiadol o'r ardal gyfagos,

*A detailed scheme of restoration and aftercare for the site shall be submitted for the approval of the Mineral Planning Authority prior to the commencement of development. Its strategy shall include details of restoration works, landform modelling and measures to create and restore agricultural grazing land, species rich grassland and to promote biodiversity in accordance with the restoration concept shown on application plan ref; 'M09162A.028A' registered with the Mineral Planning Authority on the 29th June 2017. More specifically, the restoration and habitat creation plan shall be implemented within the first available planting season and include;*

*i. Detailed topographical survey plan, cross-sections and drawings to at least 1:1,250 scale to indicate the final restored profile of quarry faces, associated embankments, haul routes and ancillary operational land,*
*ii. The treatment of haul routes, grading of quarry faces, associated embankments and ancillary operational land in a manner to secure effective re-establishment of natural vegetation of a type and species typical of the surrounding area,*
*iii. The restoration of agricultural land in accordance with the rules of good husbandry and in compliance with the guidance outlined in Annex B, Minerals Technical Advice Note (Wales) 1:Aggregates, and conditions 28 – 34 of this permission, with the aim of establishing and maintaining a healthy and vigorous grass sward free from weeds. Fertiliser and lime shall be applied to the land to maintain the soil nutrient status and to provide sufficient nitrogen to maintain a reasonable level of grassland production,*
*iv. Drainage requirements,*
*v. The reinstatement of all field boundaries and hedgerow,*
*vi. Removal of noise attenuation screening bunds,*
*vii. Full planting schedule to include details of the size, species, position & density of all native trees and shrubs of local provenance,*
*viii. The planting/seeding of appropriate species of vegetation and wild flowers typical of the surrounding area.*

**C13/0217/22/MW – Application for the determination of conditions to re-activate a Dormant sand and gravel site under Schedule 13 to the Environment Act 1995**

**Planning Permission 2250 dated, 10th December 1951**

**Field No. 297, Cae Efa Lwyd, Penygroes**

28. Bydd y gwaith adfer yn ddarostyngedig i gynllun ôl-ofal a monitro pum mlynedd a rhaid ei gyflawni i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi darfod gwaith adfer. Er osgoi unrhyw amheuaeth, fydd y ddarpariaeth ôl-ofal yn gymwys am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y gwaith adfer terfynol. Os caiff unrhyw stoc blannu ei godi, ei thynnu o’r gwraidd neu ei dinistrio, yn methu â thyfu neu iddi farw, rhaid plannu un arall o’r union rywogaeth yn yr un man a rhaid ei phlannu ar amser a bennir mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i’r cynllun ôl-ofal ddarparu fath mesuriadau sydd angen i ddwyn y tir sydd wedi’i adfer yn ôl i ddefnydd amaethyddol ac i hyrwyddo bioamrywiaeth gan gynnwys;
    - Amaethu, hadu a rheolaeth y tir yn unol â rheolau hwsmonaeth dda,
    - Cymhwyso gwrtaith a chalch yn seiliedig ar ddadansoddiad cemegol y pridd, gyda’r canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau,
    - Rheoli Glaswelltir (dosbarth anifeiliaid pori, dwysedd stocio a chyfnodau gwahardd mynediad i anifeiliaid),
    - Cyfarfod ôl-ofal blynyddol gyda’r Awdurdod Cynllunio Mwynau.

    *Restoration shall be subject to a five-year aftercare and monitoring scheme, which shall be implemented to the satisfaction of the Mineral Planning Authority upon completion of restoration works. For the avoidance of doubt, the provision of aftercare shall apply for a period of five years from the date of final restoration. If any planted stock is removed, uprooted or destroyed, fails to grow or dies, another of similar species shall be planted at the same place at such time as may be specified in writing by the Mineral Planning Authority. A scheme of aftercare shall provide for such measures as required to bring the restored land back into agricultural use and to promote biodiversity including;*
    - *Cultivations, seeding and management of the land in accordance with the rules of good husbandry,*
    - *Fertiliser and lime application based on soil chemical analysis, the results of which are to be submitted to the Mineral Planning Authority,*
    - *Grassland management (class of livestock grazing, stocking density and periods of no livestock access,*
    - *Annual aftercare meeting with the Mineral Planning Authority.*

29. Ar ôl creu’r ffurf tir terfynol i'r cyfuchliniau a gymeradwywyd, bydd y deunydd sylfaenol neu dir gwreiddiol yn cael ei rwygo’n drwyadl i leiafswm dyfnder o 50cm i dorri i fyny unrhyw gywasgedd arwynebol cyn i unrhyw ddeunydd pridd gael ei wasgaru. Bydd y gweithredwr yn rhoi 48 awr o rybudd i’r Awdurdod Cynllunio Mwynau o’r bwriad i wneud y gwaith yma. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ardaloedd o gywasgedd gormodol megis ffyrdd halio lle gall rhwygo dyfnach fod yn angenrheidiol. Bydd oll gerrig mawr, rhaffau gwifren ac unrhyw ddeunydd anghydnaws eraill sy'n codi yn cael eu symud.

    *Following the formation of the final landform to the approved contours, the base material or original ground shall be comprehensively ripped to a minimum depth of 50cm to break up any surface compaction before any soil material is spread. The operator shall give the Mineral Planning Authority 48 hours notice of an intention to carry out this operation. Special attention shall be given to areas of excessive compaction such as haul roads where deeper ripping may be necessary. All large stones, wire rope and other foreign material arising shall be removed.*

**C13/0217/22/MW – Application for the determination of conditions to re-activate a Dormant sand and gravel site under Schedule 13 to the Environment Act 1995**

**Planning Permission 2250 dated, 10th December 1951**

**Field No. 297, Cae Efa Lwyd, Penygroes**

30. Rhaid gwasgaru'r deunydd pridd (uwchbridd ac isbridd) a neilltuwyd ar gyfer eu defnyddio yn y gwaith adfer amaethyddol yn drwch unffurf ac yn y drefn gywir dros y deunydd sylfaen, a rhaid iddo lle bo angen, gael ei wreiddio a'i greithio i ddyfnder llawn heb gymysgu gyda gwahanol haenau pridd. Rhaid darparu lleiafswm 280mm o ddyfnder pridd (110mm isbridd, 170mm uwchbridd) ar ben y deunydd sylfaen dros oll ardaloedd y safle sydd i'w hadfer i ddefnydd amaethyddol oni bai bod caniatâd ymlaen llaw ar gyfer dyfnder llai wedi'i roi gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

    *The soil material (topsoil and subsoil) set aside for use in the agricultural restoration shall be spread uniformly and in correct sequence over the base material, and shall, where necessary, be rooted and scarified to full depth without causing mixing between different soil layers. A minimum soil depth of 280mm (110mm subsoil, 170mm topsoil) above the base material shall be provided over all areas of the site to be restored to agricultural after use unless prior approval for a lesser depth has been given by the Mineral Planning Authority.*

31. Wedi i'r pridd gael ei ail osod yn unol ag amod 30, rhaid gwneud dadansoddiad cemegol o'r priddoedd i asesu faint o wrtaith, calch a phrif  ac is faethion sydd eu hangen i hybu tyfiant boddhaol cnydau amaethyddol. Rhaid ail adrodd y dadansoddiad hwn yn y flwyddyn gyntaf a phedwaredd flwyddyn y cyfnod ôl ofal ac ar unrhyw adeg arall o fewn y cyfnod ar gais rhesymol ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Mwynau o ganlyniadau'r dadansoddiad.

    *After replacement of topsoil in accordance with condition 30, a chemical analysis of the soils shall be carried out to assess the fertiliser, lime and other major and minor nutrients required to promote satisfactory growth of agricultural crops. This analysis shall be repeated in the first and fourth years during the aftercare period and at any other time within that period at the reasonable written request of the Mineral Planning Authority. The results of such analysis shall be supplied to the Mineral Planning Authority.*

32. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid ar y tir nes cytunir yn fel arall mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau fod cyflwr y tir yn dderbyniol ac na fydd unrhyw berygl o ddifrodi'r wyneb drwy fathru'r tir.

    *No livestock shall be kept on the land unless otherwise agreed in writing by the Mineral Planning Authority that the condition of the land is acceptable and that there is no risk of surface damage by 'poaching'.*

33. Ar gychwyn adfer y safle, bydd adolygiad ffurfiol blynyddol ar y gwaith ac ôl-ofal sydd wedi digwydd ar y tir yn ystod y flwyddyn flaenorol a threfnu rhaglen reoli ar gyfer y flwyddyn ddilynol. O leiaf 4 wythnos cyn dyddiad yr adolygiad blynyddol, rhaid anfon i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau cofnod o waith rheoli a gweithgareddau a wnaed ar y tir yn ystod y cyfnod perthynol i'r adolygiad. Bydd yr adolygiad yn dangos yr isod gan gyfeirio at gynllun;
    (i) y mannau y cloddiwyd y deunydd oddi yno dros y flwyddyn flaenorol,
    (ii) mannau a adferwyd neu'n cael eu hadfer,
    (iii) mannau y bwriedir cloddio deunydd oddi yno yn ystod y flwyddyn i ddod,
    (iv) ardaloedd yn destun i symud pridd ac archwiliad / lluniaru archeolegol,

(v) archwiliad llawn o fesuriadau ôl-ofal ac/neu reolaeth bioamrywiaeth sydd yn gymwys i oll ardaloedd yn destun i waith adfer, ar gyfer y flwyddyn flaenorol a blwyddyn i ddod o'r datblygiad,
(vi) ardaloed wedi'u hadfer sydd i'w tynnu allan o ôl-ofal,
(vii) mesuriadau ar gyfer dileu / rheoli chwyn a thyfiant cystadleuol,
(viii) lleoliad a maint uwchbridd ac isbridd a gedwir mewn pentyrrau stoc.

*Upon commencement of site restoration, there shall be a formal annual review of operations and aftercare which have taken place on the land during the previous year and a programme of management for the ensuing year. At least 4 weeks before the date of each annual review, the Mineral Planning Authority shall be provided with a record of management and operations carried out on the land during the period covered by the review. The review shall indicate by reference to a plan;*
*(i) the areas from which material has been excavated over the previous year,*
*(ii) areas which are restored or are undergoing restoration,*
*(iii) areas from which it is proposed to excavate material over the ensuing year,*
*(iv) areas subject to soil stripping and archaeological investigation / mitigation,*
*(v) full audit of aftercare measures and/or biodiversity management applied to all areas subject to restoration works for the previous & ensuing years of development,*
*(vi) restored areas to be taken out of aftercare,*
*(vii) measures for the eradication / control of weeds and competitive growth,*
*(viii) location and quantity of topsoil & subsoil held in stockpiles.*

34. Pe derfydd y gwaith cloddio mwynau yn gynamserol am gyfnod o 12 mis ar unrhyw ran o'r datblygiad, dylid cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau cynllun adfer ddiwygiedig ar gyfer y safle, i gynnwys cynllun yn dangos y cyfuchliniau terfynol i'w cyflawni gyda'r cynllun adfer. Dylid adfer y safle wedi hynny yn unol â'r cynllun diwygiedig ymhen 12 mis i'w gymeradwyo.

*In the event of the premature cessation of mineral extraction for a period of 12 months on any given phase of the development, a revised scheme for the restoration of the site shall be submitted for the approval of the Mineral Planning Authority to include a plan showing the final contours to be achieved in the scheme of restoration. The site shall thereafter be restored in accordance with the revised scheme within 12 months of approval.*

35. Ni chaniateir i dorri neu symud llwyni ac/neu glirio llystyfiant yn ystod y tymor nythu adar (1af Ebrill i 1af Awst yn gynwysedig) onid bod arolwg ac adroddiad cyn-adeiladu yn cael ei ddarparu a'i gyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i ddangos na fydd adar sy'n nythu'n cael eu haflonyddu. Oni chytunwyd fel arall, rhaid gweithredu argymelliadau'r arolwg adar ac adroddiad cyn, yn ystod ac/neu ar ôl y datblygiad lle mae hynny'n briodol.

*No cutting or removal of shrubs and/or vegetation clearance shall take place during the bird nesting season (1st April to 1st August inclusive) in any year unless a pre-construction survey and report can be provided and submitted for the approval of the Mineral Planning Authority to demonstrate that nesting birds will not be disturbed.*

36. Rhaid gweithredu mesuriadau osgoad rhesymol i sicrhau fod ymlusgiaid yn cael eu gwarchod yn ystod y gwaith o ddymchwel terfynau cae a waliau cerrig sych. Rhaid i oll ddeunyddiau sy'n deillio oddi yno gael eu storio mewn lleoliadau pwrpasol a fydd wedi'u cytuno o flaen llaw mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau. Rhaid defnyddio oll ddeunyddiau o'r fath mewn gwaith adfer i ail adeiladu terfynau cae ac ni ddylid eu symud oddi ar y safle heb ganiatâd blaenorol ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

    *Reasonable avoidance measures shall be employed during the demolition of field boundaries and dry stone walling to ensure that reptiles will be protected. All materials derived therefrom shall be stored in areas set aside for that purpose which shall have been agreed beforehand in writing with the Mineral Planning Authority. All such materials shall be employed in works of restoring field boundaries and none shall be removed from the site without the prior written permission of the Mineral Planning Authority.*

37. Ni chaniateir cychwyn paratoi'r safle, stripio pridd neu cloddio am fwynau hyd nes y cyflwynwyd er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, cynllun ysgrifenedig i liniaru ar gyfer moch daear yn unol ag argymhellion y 'Badger Update Survey', dyddiedig 2il Awst 2017, sydd ynghlwm i'r dyfarniad hwn (Atodiad ACM 'C'). Rhaid cwblhau oll argymhellion y 'Badger Update Survey' i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Mwynau gan gynnwys ynghyd â gofynion eraill;
    1. Mesuriadau i wella'r set moch daear newydd gan gynnwys atodlen blannu coed a gwrychoedd, ôl-ofal y stoc plannu, gosod trap dal dŵr glaw ac anghenion ffensio,
    2. Monitro rheolaidd o'r safle, cau tyllau gwag a chadarnhad nad yw'r safle'n cael ei ddefnyddio gan foch daear.

    *No site preparation, soil stripping or excavation of mineral shall commence until a written scheme of mitigation for badgers has been submitted for the approval of the mineral planning authority, in accordance with the recommendations of the 'Badger Update Survey', dated 2nd August 2017, which is attached to this decision (MPA Appendix 'C'). All of the recommendations in the Badger Update Survey shall be completed to the satisfaction of the Mineral Planning Authority including amongst other requirements;*
    1. *Measures to enhance the replacement badger sett including a schedule of tree and shrub planting, aftercare of planted stock, installation of a rainwater trap and fencing requirements,*
    2. *Regular monitoring of the site, closing empty holes and confirmation that the site is not being used by badgers.*

38. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys gwaith tir neu clirio'r safle) hyd nes y cyflwynwyd manyleb ar gyfer rhaglen o waith archeolegol er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

    *No development (including groundworks or site clearance) shall take place until a specification for a programme of archaeological work has been submitted for the approval of the Mineral Planning Authority.*

39. Rhaid gweithredu'r datblygiad a chwblhau'r oll waith archeolegol yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd yn unol ag amod 38. Rhaid i hyn gynnwys darparu adroddiad manwl ar y gwaith

archeolegol, sydd i'w gyflwyno i, a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o fewn chwe mis o gwblhau'r datblygiad ar unrhyw ran o'r gwaith.

*The development shall be carried out and all archaeological work completed in strict accordance with the approved under condition 38. This shall include the production of a detailed report on the archaeological work, which shall be submitted to and approved in writing by the Mineral Planning Authority within six months of the completion the development on any phase of the works.*

40. Rhaid trin a chadw unrhyw olew neu danwydd a ddygir i'r safle mewn modd fydd yn rhwystro llygredd i unrhyw gwrs dŵr neu ddyfrhaen. Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth blaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dyluniad a lleoliad unrhyw gyfleusterau storio tanwydd a chynnwys darpariaeth ddigonol ar gyfer tanciau a chynwysyddion addas a amgaeir â waliau bwnd sydd yn ddigon uchel ac o adeiladwaith fydd yn medru cynnwys 110% o gyfanswm cynnwys y cynwysyddion a'r pibellau perthynol. Rhaid gofalu bod waliau a lloriau'r man hwnnw o fewn y waliau bwnd yn dal dŵr ac olew. Rhaid gofalu bod pibellau awyru yn cyfeirio at i lawr yn y man hwn.

    *Any oil or fuel brought onto the site shall be handled and stored in such a manner as to prevent the pollution of any watercourse or aquifer. The design and siting of any fuel storage facility shall be submitted for the prior approval of the Local Planning Authority and shall include sufficient provision for suitable tanks and containers which shall be housed in an area surrounded by bund walls of sufficient height and construction so as to contain 110 % of the total contents of all containers and associated pipework. The floor and walls of the bunded areas shall be impervious to both oil and water. Vent pipes shall be directed down into the bunded area.*

41. Trwy gydol cyfnod gwaith y safle, rhaid gwneud darpariaeth yn ôl y galw i gasglu, trin a gwaredu pob dŵr sy'n dod i mewn neu'n codi ar y safle i sicrhau na fydd draeniad llygredig neu drwytholch yn cael ei ollwng o'r safle i mewn i gwrs dŵr neu unrhyw ddŵr wyneb, naill ai yn syth neu drwy ffos gerrig. Ni chaniateir i unrhyw ddefnydd beri rhwystr i unrhyw gwrs dŵr neu gylfat na pheri iddynt gael eu herydu gan unrhyw gwrs dŵr dan unrhyw amgylchiadau.

    *Throughout the period of site operation, provision shall be made as required for the collection, treatment and disposal of all water entering or arising on the site to ensure that there shall be no discharge of leached or contaminated drainage from the site into either groundwater or any surface waters, whether direct or via soakaways. Under no circumstances shall any material be permitted to block any watercourse or culvert or be permitted to be eroded by any watercourse.*

42. Cyn cychwyn datblygiad ar y safle, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, cynllun rheoli dŵr wyneb i restru manylion llawn a chynlluniau sustem ddraenio sydd wedi'i ddylunio i sicrhau nad yw dwr wyneb o'r safle'n rhedeg i'r briffordd gyhoeddus neu gyrsiau dwr lleol ac i sicrhau nad yw unrhyw ffynhonnell ddichonol o lygredd yn cyrraedd dŵr ddaear.

    *Prior to the commencement of development at the site, a surface water management scheme shall be submitted for the approval of the Mineral Planning Authority to specify full details and plans of a drainage system designed to ensure that no surface water from the site flows onto the public*

*highway or local watercourses and to secure that any potential sources of pollution do not reach ground water.*

Rhesymau / Reasons

1. Lleihau'r cyfnod ymyrraeth achosir gan y datblygiad a ganiateir yma gan ofalu yr adferir y safle.
   *To minimise the duration of disturbance from the development hereby permitted and to secure the restoration of the site*

2. Er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Mwynau wrth fonitro cydymffurfiad gydag amodau.
   *To assist the Mineral Planning Authority in monitoring compliance with conditions*

3. Er budd mwynderau'r trigolion lleol
   *In the interests of the amenity of local residents*

4. I ddiogelu'r lefel trwythiad leol rhag aflonyddwch a chynnal yr adnoddau dŵr yn yr ardal leol
   *To protect the local water table from disturbance and maintain water resources in the local area*

5. Er budd mwynderau gweledol yr ardal a sicrhau adfer y safle y safle
   *In the interests of the visual amenity of the area and to secure the restoration of the site*

6. Lleihau i'r eithaf yr effaith andwyol bellach ar fwynderau gweledol yr ardal
   *To minimise further detriment to the visual amenity of the area*

7. I sicrhau fod y datblygwr a chontractwyr y safle'n ymwybodol o'r rhaglen gwaith a'r amodau sydd ynghlwm i gario allan y datblygiad
   *To ensure that the developer and site contractors are aware of the working programme and the conditions attached to carrying out the development.*

8. Er budd diogelwch priffyrdd
   *In the interests of highway safety*

9. Fel bo modd i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau fonitro allbwn y safle a lleihau'r effaith ar fwynderau'r ardal
   *In order that the Mineral Planning Authority can monitor the output of the site and minimise the impact on the amenities of the area*

10. Er budd diogelwch y briffordd ac i atal llwch a mwd rhag gwasgaru ar y brifford
    *In the interests of highway safety and to prevent the deposit of mud and dust on the highway*

11. I atal unrhyw ddeunyddiau gwastraff gael eu mewnforio'r safle ac i sicrhau fod y safle'n cael ei adfer yn briodol
    *To prevent any waste materials being imported on to site and ensure proper restoration of the site*

12. Er budd diogelu'r amgylchedd ac mwynderau'r ardal
    *In the interests* of environmental protection and the amenities of the area

13. Er budd diogelu'r amgylchedd ac mwynderau'r ardal

*In the interests of environmental protection and the amenities of the area*

14. Er budd diogelu’r amgylchedd ac mwynderau’r ardal
    *In the interests of environmental protection and the amenities of the area*

15. Er budd diogelwch y briffordd a mwynderau’r ardal
    *In the interests of highway safety and the amenities of the area*

16. Er budd mwynderau’r trigolion lleol
    *In the interests of the amenity of local residents*

17. Er budd mwynderau yr ardal
    *In the interests of the amenities of the area*

18. Er budd mwynderau yr ardal
    *In the interests of the amenities of the area*

19. Er budd mwynderau yr ardal
    *In the interests of the amenities of the area*

20. Gofalu yr adferir y safle’n briodol at ddibenion amaethyddol
    *To secure the proper restoration of the site to agricultural use*

21. Er budd diogelu mwynderau gweledol a biomrywiaeth yr ardal
    *In the interests of visual amenities and biodiversity of the area*

22. Er budd mwynderau’r trigolion lleol
    *In the interests of the amenity of local residents*

23. Er budd mwynderau’r trigolion lleol
    *In the interests of the amenity of local residents*

24. Er mwyn hwyluso cymryd stoc deunyddiau a monitro adnoddau adfer
    *To facilitate materials stock taking and monitoring of restoration resources*

25. Er mwyn hwylusu cymryd stoc pridd a monitro adnoddau adfer
    *To facilitate soil stock taking and monitoring of restoration resources*

26. Er mwyn hwylusu cymryd stoc pridd a monitro adnoddau adfer
    *To facilitate soil stock taking and monitoring of restoration resources*

27. Gofalu yr adferir y safle’n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal
    *To secure the proper restoration of the site in the interest of promoting the biodiversity of the area*

28. Gofalu yr adferir y safle’n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal
    *To secure the proper restoration of the site in the interest of promoting the biodiversity of the area*

**C13/0217/22/MW – Application for the determination of conditions to re-activate a Dormant sand and gravel site under Schedule 13 to the Environment Act 1995**

**Planning Permission 2250 dated, 10th December 1951**

**Field No. 297, Cae Efa Lwyd, Penygroes**

29. Gofalu yr adferir y safle’n briodol at ddiben amaethyddol
*To secure the proper restoration of the site to agricultural use*

30. Gofalu yr adferir y safle’n briodol at ddiben amaethyddol
*To secure the proper restoration of the site to agricultural use*

31. Gofalu yr adferir y safle’n briodol at ddiben amaethyddol
*To secure the proper restoration of the site to agricultural use*

32. Gofalu yr adferir y safle’n briodol at ddiben amaethyddol
*To secure the proper restoration of the site to agricultural use*

33. Gofalu yr adferir y safle’n briodol
*To secure the proper restoration of the site*

34. Gofalu yr adferir y safle’n briodol ar achlysur darfod cynamserol neu ar adawiad y gwaith mwynau
*To secure the proper restoration of the site in the event of premature cessation or the abandonment of mineral working*

35. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i sicrhau nad yw adar yn paru’n yn cael eu tarfu gan y datblygiad
*In the interests of biodiversity of the area and to ensure breeding birds are not disturbed by the development*

36. Er mwyn hwylusu cymryd stoc deunyddiau adfer ac i sicrhau nad yw ymlusgiaid yn cael eu tarfu gan y datblygiad
*To facilitate stock taking of restoration materials and to ensure that reptiles are not disturbed by the development*

37. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i sicrhau nad yw moch daear yn cael eu tarfu gan y datblygiad
*In the interests of biodiversity of the area and to ensure that badgers are not disturbed by the development*

38. Er budd gwarchod a chofnodi’n briodol y nodweddion o ddiddordeb archeolegol.
*In the interests of the proper recording or preservation of features of archaeological interest.*

39. Er budd gwarchod a chofnodi’n briodol y nodweddion o ddiddordeb archeolegol.
*In the interests of the proper recording or preservation of features of archaeological interest.*

40. Er gwarchod yr amgylchedd
*In the interests of environmental protection*

41. Diogelu ansawdd dwr ddaear a dyfrffosydd lleol
*To protect the quality of groundwater and local watercourses*

42. Diogelu ansawdd dwr ddaear a dyfrffosydd lleol

**C13/0217/22/MW – Application for the determination of conditions to re-activate a Dormant sand and gravel site under Schedule 13 to the Environment Act 1995**

**Planning Permission 2250 dated, 10th December 1951**

**Field No. 297, Cae Efa Lwyd, Penygroes**

*To protect the quality of groundwater and local watercourses*

Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (Cymru) 2015,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru Argraffiad 9, (Tachwedd 2016),
- Deddf yr Amgylchedd 1995,
- Cyngor Cynllunio Mwynau 14: (Adolygiad o Hen Ganiatadau),
- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru (Cymru); TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009), TAN 11: Swn (Hydref 1997), TAN 15: Datblygu a Preygl o Lifogydd (Gorffennaf 2004), TAN 18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007), TAN 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014),
- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau 2004, Llywodraeth Cymru,
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Agregau, Adolygiad Cyntaf Awst 2014,
- CCA Cymeriad Tirlun Gwynedd – Tachwedd 2009,
- Canllawiau Dylunio a Thirlunio Gwynedd 2004,
- CCA Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009,
- Polisiau strategol *PS 5, PS 6, PS 13, PS 19, PS 20, PS 22* a Pholisiau *AMG 3, AMG 5, AT 4, PCYFF 2, PCYFF 4, PCYFF 6, TRA 4, MWYN 2, MWYN 3, MWYN 5, MWYN 9* Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026.

*The Mineral Planning Authority is of the opinion that the policies listed below were relevant in the consideration of this application:*

- *Welsh Government Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015,*
- *Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Government Planning Policy Wales Edition 9, (November 2016),*
- *Environment Act 1995,*
- *Mineral Planning Guidance Note: 14 (Review of Old Minerals Permissions),*
- *Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Government Technical Advice Note (Wales) TAN 5: Nature Conservation and Planning (September 2009), TAN 11: Noise (October 1997), TAN 15: Development and Flood Risk (July 2004), TAN 18: Transport (March 2007), TAN 23: Economic Development (February 2014),*
- *Policies and general principles Minerals Technical Advice Note (Wales) 1: Aggregates 2004 Welsh Government,*
- *North Wales Regional Technical Statement on Aggregates, First Review August 2014,*
- *Gwynedd SPG 2009 - Landscape Character Areas,*
- *Gwynedd Design Guidance 2004,*
- Gwynedd SPG Planning and the Welsh Language November 2009,
- *Strategic Policy PS 5, PS 6, PS 13, PS 19, PS 20, PS 22 and Policies AMG 3, AMG 5, AT 4,*
- *PCYFF 2, PCYFF 4, PCYFF 6, TRA 4, MWYN 2, MWYN 3, MWYN 5, MWYN 9 of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan 2011 - 2026*

**Nodyn i'r Ymgeisydd / Note to Applicant**

**C13/0217/22/MW – Application for the determination of conditions to re-activate a Dormant sand and gravel site under Schedule 13 to the Environment Act 1995**

**Planning Permission 2250 dated, 10th December 1951**

**Field No. 297, Cae Efa Lwyd, Penygroes**

- Cyn cychwyn datblygiad mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr, rhaid i berson roi hysbysiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar y ffurflen yn Atodlen 5A i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygwyd). Rhaid i berson sy'n cyflawni'r gwaith datblygu mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr lenwi'r ffurflen sydd yn Atodlen 5B i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(fel y'i diwygwyd) ac arddangos y ffurflen honno ar neu gerllaw'r man y cyflawnir y datblygiad drwy gydol yr amser y gwneir y gwaith datblygu. Rhaid arddangos y ffurflen honno yn unol ag erthygl 24B(3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygwyd).
  *Before beginning development related to a grant of planning permission for major development a person must give notice to the Local Planning Authority on the form in Schedule 5A to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 (as amended). A person carrying out development related to a grant of planning permission for major development must complete the form in Schedule 5B to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 (as amended) and display that form at or near the place where development is being carried out, at all times when development is being carried out. That form must be displayed in accordance with article 24B(3) of the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 (as amended).*
- Byddwch cystal â nodi'r ymatebion i ymgynghoriad ynghlwm a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Atodiad A), a dylid eu cysylltu'n uniongyrchol ran rheolaethau gweithredol penodol o fewn eu hawdurdod ac/neu unrhyw hawliau neu drwyddedau ychwanegol sydd angen cyn cychwyn y gwaith gan gynnwys, Y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016, Deddf Moch Daear 1992.
  *Please note the attached consultation responses received from Natural Resources Wales (Appendix A), who should be contacted direct in respect of specific operational controls within their remit and/or any additional consents or licences required prior to the commencement of works including, The Environmental Permitting Regulations 2016, The Control of Pollution (Oil Storage Wales) Regulations 2016, The Badgers Act 1992.*
- Mae'r cais yma wedi'i asesu'n unol â'r saith nôd llesiant o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
  *This application has been assessed in accordance with the seven sustainability goals of the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015.*

**Atodiadau/Appendices**
Atodiad ACM/MPA Appendix 'A'- Ymateb CNC/NRW Response
Atodiad ACM/MPA Appendix 'B'- Acoustic Fence Plan – Amod/Condition 22
Atodiad ACM/MPA Appendix 'C'- Badger Update Survey – Amod 37/Condition 37
Atodiad ACM/MPA Appendix 'D'- Summary of Dust Control Methods – Amod/Condition 15